

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

Sut yr ydym ni'n defnyddio gwybodaeth bersonol i weinyddu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

Mae'r hysbysiad yma ar gyfer aelodau (a buddiolwyr) y Cynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân canlynol (y "Cynlluniau"):

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992;
- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2006;
- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015;
- Cynllun Pensiwn Diwygiedig y Diffoddwyr Tân.

Mae'r hysbysiad hwn wedi cael ei baratoi gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr "**Awdurdod Tân**"), yn ei rôl fel rheolwr y Cynllun ("**Rheolwr y Cynllun**").

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn hefyd ar gael ar y ddolen hon:

<http://www.nwales-fireservice.org.uk/about-us/publication-scheme/general-data-protection-regulation/>.

Pam ein bod ni'n darparu'r hysbysiad hwn i chi

Fel Rheolwr y Cynllun rydym yn cadw gwybodaeth benodol amdanoch chi (data personol) y byddwn yn ei ddefnyddio i weinyddu'r Cynllun a thalu budd-daliadau. Mae'r hysbysiad wedi ei ddylunio i roi gwybodaeth am y data yr ydym ni'n ei gadw amdanoch chi, sut yr ydym yn ei ddefnyddio, eich hawliau mewn perthynas ag ef a'r dulliau diogelu sydd ar waith i'w amddiffyn.

Pam ydym ni'n casglu gwybodaeth amdanoch chi?

Mae'r Awdurdod Tân yn cadw data personol amdanoch chi yn ei rôl fel rheolwr data ar gyfer delio gyda'r holl faterion yn ymwneud â'r Cynllun yn iawn, gan gynnwys ei weinyddu a'i reoli. Mae hyn yn cynnwys yr angen i brosesu data i:

- Gysylltu gyda chi;
- I gyfrifo, diogelu a thalu'ch budd-daliadau;
- Ar gyfer modelu ystadegol ac ariannol (er enghraifft, pan fyddwn yn asesu faint o arian sydd ei angen i ddarparu budd-daliadau'r aelodau);
- I ddibenion cyfeirio (er enghraifft, pan fyddwn yn asesu faint o arian sydd ei angen i ddarparu budd-daliadau i aelodau ac i hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch gofynion ariannu ychwanegol);
- Rheoli rhwymedigaethau a gweinyddu'r Cynlluniau'n gyffredinol;
- Asesu'ch cymhwyster, cyfrifo a darparu budd-daliadau i chi (ac, os ydych yn aelod o'r Cynllun, eich buddiolwyr ar eich marwolaeth);
- Nodi'r opsiynau posib neu wirioneddol o ran eich budd-daliadau a, lle bo hynny'n berthnasol, gweithredu'r opsiynau hynny;
- Cydymffurfio gyda'n goblygiadau cyfreithiol a rheoleiddiol fel Rheolwr y Cynllun;
- Delio gydag ymholiadau gan aelodau a buddiolwyr eraill ac ymateb i anghydfodau gwirioneddol neu bosibl yn ymwneud â'r Cynllun.

Ein sail gyfreithiol

O dan Ddeddf Diogelu Data 2018, gallwn brosesu data personol o dan sail gyfreithiol. Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer y gweithgareddau uchod yn bodoli oherwydd bod gennym rwymedigaeth gyfreithiol o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 i weinyddu'r cynlluniau.

Mae sail gyfreithiol ychwanegol hefyd yn angenrheidiol i brosesu data categori arbennig, megis gwybodaeth iechyd, ac mae modd dod o hyd i'r sail hwnnw ym Mharagraff 1 (1)(a) yn Rhan 1 yn Atodlen 1 yn Neddf Diogelu Data 2018, h.y. mae prosesu'r wybodaeth yn angenrheidiol i ddibenion perfformio neu gyflawni goblygiadau yn gysylltiedig â'r gyflogaeth, nawdd cymdeithasol neu ddiogelwch cymdeithasol.

Y data personol ydym ni'n ei gadw, a sut mae'n dod i'n meddiant

Mae'r math o ddata personol yr ydym ni'n ei gadw a'i brosesu amdanoch chi'n gallu cynnwys:

- Manylion cyswllt, gan gynnwys enw, cyfeiriad, rhifau ffôn a chyfeiriad e-bost;
- Manylion adnabod, gan gynnwys dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol a rhif gweithiwr ac aelodaeth;
- Gwybodaeth sy'n cael ei ddefnyddio i gyfrifo ac asesu cymhwysedd ar gyfer budd-daliadau, er enghraifft, hyd gwasanaeth neu wybodaeth ynghylch aelodaeth a chyflog;
- Gwybodaeth ariannol berthnasol i gyfrifo neu dalu budd-daliadau, er enghraifft, cyfrif banc a manylion treth;
- Gwybodaeth am eich teulu, dibynyddion neu amgylchiadau personol, er enghraifft, statws priodasol a gwybodaeth berthnasol i ddsbarthu a dyrannu budd-daliadau sy'n daladwy ar eich marwolaeth;
- Gwybodaeth ynglŷn â'ch iechyd, er enghraifft, i asesu'ch cymhwysedd ar gyfer derbyn budd-daliadau afiechyd, neu pa un ai a ydi'ch iechyd yn berthnasol i gais am fudd-daliadau yn dilyn marwolaeth aelod o'r Cynllun;
- Gwybodaeth am euogfarnau os ydi hynny'n golygu fforffedu'r pensiwn.

Rydym yn derbyn rhywfaint o'r wybodaeth bersonol yma gennych chi yn uniongyrchol. Rydym hefyd yn derbyn data (er enghraifft, gwybodaeth am eich cyflog) gan eich cyflogwr presennol neu'ch cyn gyflogw(y)r, gan aelod o'r Cynllun (os ydych chi neu os allech chi fod yn fuddiolwr oherwydd bod yr unigolyn hwnnw'n aelod o'r Cynllun) ac o bob math o ffynonellau eraill gan gynnwys cronfeydd data cyhoeddus (megis y gofrestr Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau), ein hymgynghorwyr a chyrrff llywodraeth neu reoleiddiol, gan gynnwys y sefydliadau hynny sydd wedi eu rhestru isod y gallwn rannu'ch gwybodaeth bersonol gyda hwy.

Os byddwn yn derbyn gwybodaeth yn ymwneud â data sensitif iawn, megis gwybodaeth am eich iechyd, bydd camau diogelu ychwanegol yn cael eu gweithredu o dan y ddeddfwriaeth diogelu data. Byddwn yn prosesu data oddi mewn i un o'r categorïau arbennig dim ond gyda'ch caniatâd chi, oni bai y gallwn brosesu'r data yn gyfreithiol am reswm arall os ydi'r ddeddfwriaeth yn caniatáu hynny (cyfeiriwch at yr adran 'Ein sail gyfreithiol' uchod).

Os ydych chi wedi cyflwyno data personol am bobl eraill, megis aelodau'ch teulu, dibynyddion neu fuddiolwyr posib o dan y Cynllun, sicrhewch fod yr unigolion hynny'n ymwybodol o'r wybodaeth sydd wedi cael ei gynnwys yn yr hysbysiad.

Sefydliadau y gallwn rannu'ch data personol gyda hwy

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed (DPF) wedi cael ei benodi i weinyddu'r cynlluniau ar ran yr Awdurdod Tân; gan weithredu fel prosesydd data gyda'r hawl i brosesu'r wybodaeth yr ydym yn ei anfon atynt i'r dibenion prosesu penodol ar gyfer gweinyddu'r cynlluniau.

Bydd DPF hefyd yn rhannu'r wybodaeth gyda'r sefydliadu trydydd parti canlynol:

- Actwari'r Gronfa;
- Biwroau olrhain ar gyfer sgrinio marwolaethau a dod o hyd i aelodau;
- Darparwyr taliadau tramor i drosglwyddo taliadau i aelodau'r cynllun sydd heb gyfrifon yn y DU;
- Cwmnïau argraffu;
- Darparwyr meddalwedd pensiynau;
- Cyflenwyr TG, cynhyrchu dogfennau a gwasanaethau dosbarthu.

Am ragor o wybodaeth am y modd y mae DPF yn prosesu'ch gwybodaeth ar ein rhan, darllenwch eu hysbysiad preifatrwydd sydd ar gael yma -

<http://www.dyfedpensionfund.org.uk/media/1628/gdpr-privacy-notice-english.pdf>

Fel rheolwr y data ar gyfer y cynlluniau, fe all Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru rannu gwybodaeth gyda'r sefydliadau trydydd parti canlynol:

- Archwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru ar hyn o bryd);
- Adran Actwari'r Llywodraeth;
- Llysoedd Cymru a Lloegr - i ddiben prosesu gorchmynion rhannu pensiwn ar ôl ysgaru.

Ym mhob achos byddwn yn gwneud hyn dim ond os ydi'r wybodaeth yn rhesymol angenrheidiol i'r dibenion hyn.

Lle gofynnir hynny neu os ydym yn ystyried ei fod yn rhesymol angenrheidiol, byddwn hefyd yn rhannu'ch data gyda chyrrff y llywodraeth a sefydliadau adfer anghydfod a gorfodi'r gyfraith, gan gynnwys y rhai a restrir uchod, y Rheoleiddiwr Pensiynau, yr Ombwdsmon Pensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC). Fe allant wedyn ddefnyddio'r data i gyflawni eu swyddogaethau statudol.

Fe all y sefydliadau y cyfeirir atynt yn y paragraffau uchod ddefnyddio'r data personol i berfformio eu swyddogaethau mewn perthynas â'r Cynllun yn ogystal ag ar gyfer modelu ystadegol ac ariannol (megis cyfrifo costau budd-daliadau disgwylidig ar gyfartaledd a graddfeydd marwolaethau) a chynllunio, gweinyddiaeth fusnes a dibenion rheoleiddio. Fe allant hefyd basio'r data ymlaen at sefydliadau trydydd parti eraill, cyn belled eu bod yn ystyried bod yr wybodaeth yn rhesymol angenrheidiol i ddibenion cyfreithlon.

Am faint o amser fyddwn yn cadw'ch data personol

Byddwn yn cadw'ch data personol am gyn hired ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r diben(ion) y'i casglwyd ar ei gyfer a chyn hired ag sydd yn angenrheidiol yn ein barn ni wedi hynny i ddelio gydag unrhyw gwestiynau neu gwynion y gallwn eu derbyn am y modd y cafodd y Cynllun ei weinyddu, oni bai ein bod yn dewis cadw'ch data am gyfnod hirach i gydymffurfio gyda'n goblygiadau cyfreithiol a rheoleiddiol. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gall eich data personol gael ei gadw am y cyfnod yr ydych chi (neu unrhyw fuddiolwr sydd yn derbyn budd-daliadau wedi'ch marwolaeth) yn derbyn budd-daliadau gan y Cynllun ac am gyfnod o 15 mlynedd wedi i'r budd-daliadau hynny ddod i ben. Am yr un rheswm, mae'n bosib y

bydd rhaid cadw'ch data personol os ydych wedi derbyn trosglwyddiad, neu ad-daliad, gan y Cynllun mewn perthynas â'ch hawl i fudd-dal.

Eich hawliau

Mae gennych hawl i gael gweld a chael copi o'r data personol y mae'r Awdurdod Tân yn ei gadw amdanoch chi ac i ofyn i'r Awdurdod Tân gywiro'ch data personol os oes unrhyw gamgymeriadau neu os ydi'r data'n hen neu'n anghyflawn. Mewn rhai amgylchiadau mae gennych yr hawl i wrthod prosesu data personol ac mewn rhai achosion efallai bod gennych yr hawl i ofyn i'r Awdurdod Tân gyfyngu ar brosesu'ch data personol hyd nes y bydd y camgymeriadau wedi cael eu cywiro neu drosglwyddo neu (mewn achosion prin iawn) dileu'ch data personol. Cewch ragor o wybodaeth am yr hawliau hyn gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: www.ico.org.uk neu drwy ffonio'r llinell gymorth (0303 123 1113).

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn neu os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon mewn perthynas â phrosesu'ch data personol, cysylltwch â'r Awdurdod Tân fel y nodir isod. Mae gennych hefyd yr hawl i gyflwyno cwyn mewn perthynas â'r hysbysiad preifatrwydd hwn neu weithgareddau prosesu'r Awdurdod Tân gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a hynny trwy'r wefan uchod neu eu llinell gymorth.

Cysylltu gyda ni

Mae'n ofynnol i ni yn ôl y gyfraith (Y Rheoliadau Diogelwch Data Cyffredinol/ GDPR) i gael Swyddog Diogelu Data ac mae manylion cyswllt y Swyddog fel a ganlyn:

Swyddog Diogelu Data

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Ffordd Salisbury

Llanelwy

Sir Ddinbych

LL17 0JJ

Rhif ffôn: 01745 535250

Ebost: dpo@gwastan-gogcymru.org.uk

Cyfeiriad gwefan: <http://www.gwastan-gogcymru.org.uk/fire-and-rescue-authority?lang=cy>